# Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

# Cynllun Ariannol Tymor Canolig

# 2020-21 tan 2024-25

Ionawr 2020

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn cysylltu Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021 a'r Blaenoriaethau Plismona y cytunwyd arnynt gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, gyda'r Strategaeth Ariannol (Atodiad A) a'r adnoddau sydd ar gael.

1.2 Ar adeg ysgrifennu'r CATC, nid yw cyllid y Llywodraeth ar gyfer 2020-21 wedi'i gyhoeddi oherwydd yr Etholiad Cyffredinol a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2019. Mae'r CATC yn rhoi'r sail i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (CHTh) gyflwyno ei gynnig praesept i Banel yr Heddlu a Throsedd (PHTh) erbyn y dyddiad statudol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r cynllun fod yn seiliedig ar amcangyfrif o ddyraniadau grant yn hytrach na gwir ddyraniadau. Mae rhai cyhoeddiadau wedi'u gwneud. Y prif gyhoeddiad yw penderfyniad y Llywodraeth i ariannu 20,000 yn rhagor o Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr dros y 3 blynedd nesaf (Ymgyrch Uplift). Dyrannwyd 62 o'r cwota cychwynnol o 6,000 o swyddogion yng Nghymru a Lloegr i Heddlu Gogledd Cymru, er nad yw gwerth ariannol y dyraniad hwn wedi'i roi. Mae'r terfynau amser a'r ansicrwydd o ran cyllid wedi ychwanegu cymhlethdod a risg at ddatblygiad y CATC. Er bod twf o ran nifer swyddogion, mae pwysau ar y gyllideb bresennol oherwydd chwyddiant, twf o ran nifer swyddogion a galw newidiol cynyddol yn dal i fod yn uchel. Roedd y gyllideb wedi'i mantoli ac roedd y gwasanaeth wedi'i gynnal dros y cyfnod o galedi, gan gynnig sefyllfa gadarn ar gyfer y gyllideb sylfaenol a'r gronfa wrth gefn. Fodd bynnag, bydd y newid parhaus mewn galw a'r pwysau newydd o ran costau yn gofyn am fwy o fuddsoddiadau gyda llai o gyfleoedd am arbedion effeithlonrwydd.

1.3 Yn ystod 2019-20, mae'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol (RhGG) wedi adolygu 47% o'r Heddlu gan ganolbwyntio ar blismona gweithredol a'r cydbwysedd rhwng plismona cymdogaethol, ymateb a gwaith ymchwilio. Mae hyn wedi ein galluogi i ail-fuddsoddi arbedion effeithlonrwydd i fynd i'r afael â gofynion cyfredol oherwydd newid yn y galw. Gweithredwyd argymhellion RhGG yn ystod 2019-20.

1.4 Roedd 53% arall yr Heddlu yn destun adolygiad yn ystod 2019-20. Roedd 40% o'r cyllidebau yn destun proses Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol (PRP) lle gwnaeth rheolwyr gyflwyno lefelau gwasanaeth gwahanol posibl, a aseswyd gan Banel o Brif Swyddogion, yna cafodd y rhain eu sgorio a chafodd cyllidebau eu dyrannu ar sail sgôr y lefelau gwasanaeth. Cafodd 13% arall y cyllidebau eu hadolygu y tu allan i'r broses PRP.

1.5 Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael yn yr amcangyfrif o adnoddau sydd ar gael. Cyflawnwyd gwaith helaeth gan y broses PRP er mwyn nodi arbedion a symud adnoddau o fewn y sefydliad. Gwnaeth y broses PRP hefyd alluogi dyrannu 62 o swyddogion Ymgyrch Uplift mewn modd deallus, ar sail blaenoriaethau. Mae chwyddiant cyflog wedi cynyddu wrth i'r Llywodraeth lacio cyfyngiadau tâl y sector cyhoeddus. Byddai angen cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4.7% er mwyn talu costau chwyddiant yn seiliedig ar y setliad grant gwastad. Mae adnoddau ychwanegol ar gael wrth i swyddogion ychwanegol gael eu cyhoeddi; fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd cost lawn y swyddogion ychwanegol, gan gynnwys cefnogaeth ac isadeiledd, yn

cael ei hariannu. Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, cynigir cynnydd o £12.51 (4.5%) yn nhreth y cyngor. Hwn yw'r cynnydd treth y cyngor / praesept gofalus isaf dan yr amgylchiadau, o ystyried nad yw cyllid cyffredinol, cyllid ymgyrch Uplift cam 1 na dyraniad cam 2 ymgyrch Uplift wedi'u cyhoeddi; a hefyd bod ansicrwydd sylweddol am gyllid o 2021-22 ymlaen.

1.6 **Nod**

Nod y papur hwn yw manylu sut y cafodd y gyllideb ei mantoli hyd yma a'r cynlluniau i gynnal cyllideb fantoledig yn y tymor canolig a hwy, gan gynnal a gwella perfformiad a sicrhau y cyflawnir blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

1.7 **Cefndir**

Mae Rhaglen Caledi'r Llywodraeth, a ddechreuodd yn 2011, wedi arwain at doriadau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus. Cafodd cyllid y Llywodraeth ei ostwng 20.8% o ran arian parod, sydd gyfwerth â gostyngiad o 31.7% mewn termau real (gan ystyried chwyddiant) erbyn 2019-20. Yn ychwanegol at hyn, cynyddodd cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr Swyddogion Heddlu o 24.2% i 31% yn 2019-20, ac er y darparwyd rhywfaint o arian ychwanegol, gwnaeth hyn gynhyrchu cynnydd net o fwy na £2m o ran costau. Arweiniodd hyn at gynnydd Treth y Cyngor o 7.74% yn 2019-20, o'i gymharu â chynnydd Treth y Cyngor o rhwng 1.91% a 3.98% yn ystod cyfnod 2011-12 i 2018-19.

1.8 Arweiniodd effaith gyffredinol llai o gyllid a phwysau chwyddiant a phwysau arall at £33.031m o doriadau i'r cyllidebau dros gyfnod o 9 mlynedd. Mae hyn yn gyfwerth â gostyngiad o 22.3% yng nghyllidebau cyn caledi 2010-11 o £148.035m. Dangosir y toriadau blynyddol yn y tabl isod:

| Blwyddyn | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Toriadau a wnaed | £4.678m | £6.016m | £4.634m | £4.325m | £4.448m | £2.838m | £2.686m | £1.479m | £1.927m |

1.9 Ar 4 Medi 2019, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys, y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS, a oedd newydd ei benodi, ganlyniad Cylch Gwario 2019 (SR2019) y cyfeirir ato weithiau fel yr 'Adolygiad o Wariant'. Roedd SR2019 yn nodi cyfansymiau gwariant cyhoeddus ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Roedd hyn cyn galw'r Etholiad Cyffredinol. Gwnaeth Brexit effeithio'n sylweddol ar y cyfnod a oedd yn arwain at SR2019, a'i natur. Gyda'r Prif Weinidog, Boris Johnson, yn benderfynol o sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (bryd hynny erbyn 31 Hydref), gyda chytundeb neu heb gytundeb, roedd SR2019 wedi'i osod yn erbyn cefndir o lawer o ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd. Mae SR2019 yn anarferol, er nad yw'n unigryw (SR2013), o ran ei fod yn cwmpasu gwariant am un flwyddyn yn unig; mae adolygiadau gwariant fel arfer yn cwmpasu sawl blwyddyn. Fel a ysgrifennwyd mewn cyhoeddiad diweddar gan Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, o ystyried yr ansicrwydd parhaus o ran Brexit, mae gosod cyllidebau adrannol ar gyfer un flwyddyn yn unig yn ddealladwy, ac mae'n rhoi rhagor o hyblygrwydd i'r Llywodraeth ymateb i ddatblygiadau yn y dyfodol. Er bod adrannau am weld setliadau gwariant aml-flwyddyn ar gyfer cynllunio yn y dyfodol, mae'n debyg na fyddai hygrededd gan gynlluniau o'r fath yn yr hinsawdd bresennol. Disgwylir y bydd adolygiad cynhwysfawr o wariant aml-flwyddyn yn digwydd yn ystod 2020; er bod y cyn Ganghellor wedi sôn am adolygiad tair blynedd, nid yw hyd adolygiad 2020 wedi'i gadarnhau.

1.10 Gwnaeth SR2019 gyhoeddi cyllid ar gyfer y 20,000 o swyddogion ychwanegol dros 3 blynedd, fodd bynnag nid oedd yn fanwl mewn unrhyw fodd ac ni fydd yn glir a fydd costau chwyddiannol presennol a chostau sy'n gysylltiedig â chynyddu nifer swyddogion yn cael eu hariannu. Roedd y grant ychwanegol tuag at y Pensiwn Cyflogwr Swyddogion Heddlu ar yr un lefel arian parod (dim cynnydd chwyddiannol) wedi'i gynnwys. Ar ôl i'r Etholiad Cyffredinol gael ei gyhoeddi ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth bellach. Er mwyn sicrhau bod CHTh yn cynnal cyllid termau real er nad oedd cynnydd o ran cyllid grant canolog, mewn blynyddoedd diweddar, fe gymerodd y Swyddfa Gartref y byddai cynnydd o £12 yn nhreth y cyngor yn 2018-19; ac i ddarparu ar gyfer cyfraniadau pensiwn y swyddogion heddlu ychwanegol a galw cynyddol, cynyddwyd hyn i £24 yn 2019-20. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod cyfyngiad capio sefydlog ar gyfer treth y cyngor.

1.11 Cynhaliodd y Swyddfa Gartref adolygiad o Fformiwla Ariannu'r Heddlu yn 2015-16. Mae'r fformiwla yn pennu sut y mae'r Swyddfa Gartref yn rhannu cyfanswm yr arian sydd ar gael ar gyfer plismona rhwng yr ardaloedd plismona. Cafodd yr adolygiad o'r Fformiwla ei ohirio ar ôl i Heddluoedd godi materion o ran cywirdeb y data a ddefnyddiwyd yn y fformiwla arfaethedig. Nid yw'n glir a gynhelir adolygiad o'r fformiwla ariannu ar ôl yr Adolygiad o Wariant yn 2020-21.

**2. Y Broses Gynllunio**

2.1 Pwrpas cyffredinol y broses gynllunio yw blaenoriaethu adnoddau i alinio cynlluniau gwario gyda blaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a gweledigaeth y Prif Gwnstabl. Mae'r blaenoriaethau wedi'u nodi isod

**<u>Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd</u>**

- Lleihau Camfanteisio'n Droseddol ar Bobl Ddiamddiffyn
- Cam-drin domestig
- Trais Rhywiol
- Caethwasiaeth Fodern
- Trosedd Gyfundrefnol
- Cymdogaethau Mwy Diogel

**Gweledigaeth y Prif Gwnstabl yw**

***Sicrhau mai gogledd Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn y DU; trwy Atal Trosedd, Diogelu Cymunedau a Dal troseddwyr.***

2.2 Roedd proses cynllunio'r gyllideb ar gyfer 2020-21 yn cynnwys gweithredu'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol a gynhaliwyd yn ystod 2018-19 a oedd yn cwmpasu 47% o gyllidebau'r Heddlu a'r adolygiad o'r ardaloedd eraill. Roedd 40% o'r cyllidebau yn destun proses Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol (PRP) lle gwnaeth rheolwyr nodi amryw lefelau gwasanaeth. Cafodd 13% arall o'r cyllidebau eu hadolygu y tu allan i'r prosesau hyn.

2.3 Yn ychwanegol at yr uchod, aethpwyd drwy'r broses arferol ar gyfer datblygu gofynion ariannol y dyfodol ac mae'r manylion i'w gweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig

(CATC) hwn. Wrth ddatblygu'r cyflwyniadau gan reolwyr a'r CATC hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

- Blaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a Gweledigaeth yr Heddlu
- Pwysau newydd a phwysau sy'n datblygu
- Y broses cynllunio strategol
- Datganiad Rheoli'r Heddlu
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Yr hinsawdd economaidd bresennol
- Amcangyfrif o'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhagolygon cyllideb ar gyfer y cyfnod yn cynnwys dyfarniadau cyflog
- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Y Rhaglen Gyfalaf, y Cod Darbodus a'u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth gefn a Balansau
- Creu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithio

2.4 Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu yn ei ail flwyddyn. Roedd y Datganiad yn dadansoddi galw yn y dyfodol yn erbyn capasiti a gallu ein timau. Roedd yn defnyddio prosesau dadansoddi data a chyfweliadau gydag arbenigwyr pwnc. Cynhaliwyd asesiad risg ar bob adran gan ystyried tuedd y galw a'r adnoddau oedd ar gael, i'w gosod mewn trefn yn ôl risg ac adnoddau gofynnol. Defnyddiwyd rhagolygon ystadegol i ragweld y gofynion am adnoddau a llywio ceisiadau PRP.

2.5 Y meysydd a nodwyd yn Natganiad Rheoli'r Heddlu fel bod angen buddsoddiad posibl arnynt oedd fel a ganlyn; defnyddiwyd y wybodaeth hon fel rhan o gyflwyniadau perthnasol y PRP:

- Mae'r rhagolygon dwy flynedd yn nodi, pe bai arferion gweithio presennol yn cael eu cynnal, byddai angen twf yn y meysydd hynny o'r Heddlu sy'n rheoli galw a gaiff ei gynhyrchu gan droseddau treisgar a throseddau rhyw (Gwasanaethau Troseddau a'r Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn yn bennaf).

- Mae'r Heddlu yn disgwyl i'r galw am ymchwiliadau twyll, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â throseddau sy'n dibynnu ar y we neu sy'n cael eu galluogi gan y we, gynyddu y tu hwnt i allu ymchwilio presennol o fewn y ddwy flynedd nesaf.

- Bydd lefel yr adnoddau sydd eu hangen i reoli'r llwyth gwaith tystiolaethol o ymchwiliadau Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol yn cynyddu wrth i gymhlethdod daearyddol y grwpiau, a maint dyfeisiau digidol gynyddu.

- Bydd angen cynyddu gallu ein staff ymchwiliadol a gwybodaeth i ddelio â gweithgarwch Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol a gaiff ei alluogi gan dechnoleg ddatblygol.

- Bydd rhagor o fuddsoddiad mewn Technoleg Gwybodaeth oherwydd bod caledwedd a meddalwedd newydd ar gael. Mae disgwyl y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i gadw'n gyfredol â datblygiadau, yn unol â heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr.

- Bydd buddsoddiad mewn swyddogion a staff, galw ychwanegol o ran hyfforddiant a buddsoddiad mewn lles swyddogion a staff.

2.6 Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod blaenoriaethau CHTh a'r Prif Gwnstabl yn alinio â blaenoriaethau'r cyhoedd. I lywio hyn, cynhaliwyd Arolwg Ffydd y Cyhoedd gan asiantaeth annibynnol. Mae cipolwg ar arolwg eleni, sy'n gyson ag arolygon blaenorol, wedi'i gynnwys isod:

| Blaenoriaeth | % Pwysig iawn | % Ddim yn bwysig o gwbl |
|---|---|---|
| **Diogelu plant a phobl ifanc rhag cam-fanteisio a cham-drin rhywiol** | 89 | 0 |
| **Ateb ac ymateb yn brydlon i alwadau brys (999)** | 86 | 1 |
| **Mynd i'r afael â throseddu cyfundrefnol ac atal niwed difrifol** | 80 | 0 |
| **Diogelu plant ar-lein** | 78 | 1 |
| **Diogelu oedolion diamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth** | 70 | 1 |
| **Pobl sydd ar goll** | 62 | 1 |
| **Ymdrin â thrais domestig** | 61 | 1 |
| **Lleihau nifer y damweiniau ffyrdd, pobl a gaiff eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol a throseddau sy'n ymwneud â thraffig** | 57 | 1 |
| **Digwyddiadau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl** | 50 | 3 |
| **Ymchwilio i seiberdroseddu** | 41 | 2 |
| **Ymchwilio i droseddau gwledig a throseddau bywyd gwyllt** | 35 | 3 |
| **Delio â mân droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol** | 32 | 2 |
| **Ymchwilio ac erlyn pobl sy'n meddu ar symiau bach o gyffuriau a reolir** | 39 | 6 |
| **Helpu pobl i ddelio â phobl sy'n trolio ar y cyfryngau cymdeithasol** | 31 | 7 |
| **Ateb ac ymateb yn brydlon i alwadau nad ydynt yn rhai brys (101)** | 20 | 5 |

2.7 Y brif broses a ddefnyddiwyd yn ystod cylch cynllunio 2019-20 oedd Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol (PRP). Mae hwn yn ddull strwythuredig lle roedd rheolwyr yn nodi gwahanol lefelau gwasanaeth a'r adnoddau gofynnol i'w cyflawni. Roedd y broses yn cynnwys rheolwyr yn cyflwyno eu cynlluniau i Banel ar dri cham. Roedd Panel y PRP yn cynnwys y Dirprwy Brif Gwnstabl (Cadeirydd) y Prif Gwnstabl Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau. Roedd y Panel yn cael ei gefnogi gan y Prif Swyddog Cyllid, cynrychiolwyr o Ffederasiwn yr Heddlu ac Unsain a'r Tîm PRP, a oedd yn gallu arsylwi'r broses, a chynnig cyngor a chymorth technegol.

2.8 Cynhaliwyd cyfarfodydd y Panel ym mis Gorffennaf, Medi a Hydref 2019. Cafodd amrywiadau o ran lefelau gwasanaeth eu categoreiddio yn y ffordd a ganlyn:

- Newidiadau o ran faint o waith sydd – Newid o ran galw / llwyth gwaith o'r tu allan i'r Ardal Fusnes
- Newidiadau o ran Lefel Gwasanaeth – Dewisiadau sy'n ymwneud ag ansawdd, amser a faint o wasanaethau sydd â risgiau
- Newidiadau o ran Dull – Darparu arbedion effeithlonrwydd trwy wneud pethau'n wahanol

2.9 Yn dilyn y cyflwyniadau terfynol ym mis Hydref, sgoriodd y Panel yr amryw lefelau gwasanaeth ar sail y matrics isod (gan ystyried y wybodaeth strategol a amlygir uchod). Yna roedd hyn yn rhoi rhestr o lefelau gwasanaeth posibl wedi'u trefnu yn ôl blaenoriaeth.

| Safle | Asesiad Lefel Gwasanaeth |
|---|---|
| 10 | Hanfodol – gofyniad corfforaethol neu gyfreithiol na ellir ei osgoi |
| 9 | Allweddol – ni ellir ei osgoi heb golled neu ddifrod sylweddol |
| 8 | Pwysig iawn – mae'n darparu gwasanaethau gwerthfawr a chynhyrchiol |
| 7 | Pwysig – mae'n anodd gweld y lefel gwasanaeth hon yn dod i ben |
| 6 | Dymunol iawn – gellid dod ag ef i ben pe bai cyllid yn cael ei gwtogi'n ddifrifol |
| 5 | Dymunol – y cyntaf i ddod i ben pe bai cyllid yn cael ei gwtogi |
| 4 | Ffiniol – nid yw wedi'i ddarparu, ond hwn fydd y cyntaf i gael ei gefnogi os bydd cyllid ar gael |
| 3 | Posibl – fe'i darperir dim ond os bydd cyllid sylweddol uwch ar gael |
| 2 | Ansicr – dim digon o gyfiawnhad i'w ariannu dan amgylchiadau presennol |
| 1 | Ddim i'w ariannu - ni ddylid ei ariannu dan unrhyw amgylchiadau |

2.10 Mewn egwyddor, caiff yr adnoddau sydd ar gael eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau â'r sgôr uchaf. Roedd y broses wedi'i chymhlethu ymhellach oherwydd mai'r flwyddyn gyntaf oedd hon, ac oherwydd bod nifer o newidiadau o ran maint wedi'u nodi, nid oedd yn hysbys faint o arian oedd ar gael, ac yn ystod y broses, cyhoeddwyd y byddai swyddogion ychwanegol ar gael fel rhan o ymgyrch Uplift.

2.11 Cynhaliwyd dau gyfarfod gyda thîm y Prif Swyddog i gytuno ar y canlyniad o broses y PRP. Roedd hyn yn caniatáu defnyddio adnoddau hysbys a oedd ar gael ar gyfer blaenoriaethau a llywio dyrannu'r 62 Swyddog ychwanegol o Ymgyrch Uplift. Yna trafodwyd y canlyniad yn y cyfarfod blynyddol Gosod y Gyllideb gydag Arweinwyr Gwasanaeth ac eraill gan ddod â chanlyniadau'r PRP, gweithredu'r RhGG, Cynlluniau Arbedion a'r holl elfennau eraill at ei gilydd i lunio'r CATC hwn. Yna roedd hyn yn ffurfio'r cynnig a gyflwynwyd i'r CHTh a'i dîm.

2.12 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u cynrychiolwyr ar 18 Rhagfyr i drafod cynigion y gyllideb. Gan nad oedd y cyhoeddiadau ariannu wedi'u

gwneud bryd hynny, cafodd rhagdybiaethau eu hadolygu a'u cytuno i fwrw ymlaen â gosod y gyllideb ar gyfer 2020-21 fel sy'n ofynnol erbyn y dyddiadau statudol.

2.13 Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion yr holl ddatblygiadau ers y CATC blaenorol, gan nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer refeniw, cyfalaf a chronfeydd wrth gefn.

**3. Cyllideb 2019-20**

3.1 Roedd y cyllidebau a gytunwyd ar gyfer 2019-20 yn ymdrin â nifer o faterion a gododd yn ystod 2018-19. Roedd rhain yn ychwanegol at y pwysau cyllidebol arferol a phwysau chwyddiannol. Y prif fater oedd y cynnydd o ran Cyfradd Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr o 24.2% i 31.0% a gyhoeddwyd i ddechrau ym mis Medi 2018 fel cynnydd i 33.9%. Arweiniodd y ffigur terfynol at gynnydd o £4m mewn cyfraniadau pensiwn ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru, sydd gyfwerth â thoriad 5.5% mewn Grant. Yn dilyn trafodaethau ar lefel genedlaethol, dyrannwyd grant penodol i heddluoedd yn 2019-20 tuag at y cyfraniad Pensiwn; y swm ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru oedd £1.582m. Roedd y setliad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018 hefyd yn cynnwys cynnydd chwyddiannol o 2.1%, y cynnydd cyntaf ers 2010-11.

3.2 Roedd y setliad hefyd yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Heddluoedd yn Lloegr gynyddu eu Treth Cyngor Band D hyd at £24. Mae hyn hefyd yn uwch na'r ffigwr a gyhoeddwyd yn flaenorol o £12. Byddai hyn yn rhoi rhychwant o gynnydd yn Nhreth y Cyngor rhwng 9.3% a 21.8% pe bai Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn cynyddu Treth y Cyngor yr uchafswm, sef £24. Penderfyniad i'r Comisiynwyr unigol oedd cynyddu Treth y Cyngor fel hyn ai peidio. Yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru ddiffinio unrhyw gap Treth y Cyngor, ni osodwyd cap ar gyfer 2019-20. Mae'r Swyddfa Gartref wedi rhagdybio y byddai'r holl Heddluoedd yn cynyddu Treth y Cyngor £24 wrth gyfrifo'r cyfanswm ychwanegol posibl sydd ar gael i Heddluoedd o Braesept y Dreth Gyngor o £509m. Gosododd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gynnydd o £19.98 / 7.78% ar gyfer Treth y Cyngor Band D.

3.3 Arweiniodd hyn at osod cyllideb lle nodwyd £2.832m o arbedion, cafodd £2.793m o arbedion eu hail-fuddsoddi, a chafodd £2.614m ei fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen fel a nodir isod. Roedd hyn yn golygu bod angen recriwtio gweithwyr prawf ychwanegol, a hyfforddi ditectifs ychwanegol, i alluogi gweithredu'r holl swyddi twf. Bydd pob swydd wedi'i llenwi erbyn mis Chwefror 2020. Rhagwelir y bydd y canlyniad o fewn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ar ddiwedd y trydydd chwarter.

| | **Disgrifiad - diwygiedig** | **Swyddogion**<br>**Cyfwerth â llawn amser** | **Staff**<br>**Cyfwerth â llawn amser** | **Cyfanswm Cylchol**<br>**£'000** | **Cyfanswm Sefydlu**<br>**£'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cynyddu capasiti a gallu rhagweithiol gweithredol | 16 | 1 | 783 | 115 |
| 2 | Cynyddu capasiti a gallu i ddelio â throseddau difrifol a chyfundrefnol | 6 | | 254 | 8 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Cynyddu capasiti un pwynt cyswllt ffôn a dadansoddol | | | 3 | 114 | 8 |
| 4 | Datblygu a gweithredu tîm unigolion ar ffo newydd | | 3 | | 132 | 19 |
| 5 | Cynyddu capasiti ar gyfer archwiliadau fforensig digidol | | | 2 | 84 | 5 |
| 6 | Cynyddu'r nifer o swyddogion cam-drin domestig | | | 3 | 127 | 4 |
| 7 | Cynyddu'r nifer o Swyddogion yr Uned Troseddwyr Rhyw a Thrais | | 3 | | 127 | 4 |
| 8 | Cynyddu swyddogaethau Onyx a darparu gallu o ran camfanteisio troseddol ar blant | | 2 | | 84 | 3 |
| 9 | Hwylusydd Cydlynu a Thasg Amlasiantaeth (MATAC) | | | 1 | 38 | 2 |
| 10 | Gwella ac uwchraddio gynnau taser | | | | 136 | |
| 11 | Cronfa Arloesi | | | | 60 | |
| 12 | Buddsoddi i ysgogi digidol | | | | | 407 |
| 13 | Arian ysgogi ACE trwy Gronfa'r Comisiynydd | | | | | 100 |
| | | **Cyfanswm buddsoddiad ychwanegol ar gynnydd Treth y Cyngor o £19.98/7.74%** | **30** | **10** | **1,939** | **675** |

3.4 Mae Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn cynnal adolygiadau blynyddol o: sefyllfa ariannol yr Heddlu; y broses gynllunio; yr arbedion a wnaed eisoes; a'r arbedion sydd eto i'w gwneud. Roedd gofyn i'r Heddlu lunio Datganiad Rheoli'r Heddlu am y tro cyntaf erbyn mis Mai 2018 yn rhan o broses AHEM, a lluniwyd yr ail ym mis Mehefin 2019. Mae'r Datganiad Rheoli'n disgrifio'r galw a ddisgwylir yn y dyfodol a bylchau posibl. Mae hwn wedi'i ddefnyddio'n rhan o'r adolygiad RhGG a'r broses gynllunio.

3.5 Mae adolygiadau 'V*aluing the Police*' AHGTAEM wedi eu hymgorffori yn eu rhaglen adolygu newydd, sef adolygiadau PEEL (Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu). Y cwestiwn cyffredinol mewn perthynas ag effeithlonrwydd a osodwyd gan AHEM yw 'Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddau?' gyda'r diffiniad o 'effeithlonrwydd' fel a ganlyn: '*bydd heddlu effeithlon yn sicrhau'r deilliannau gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo*.' Ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn, nid oedd y canfyddiadau terfynol wedi'u cyhoeddi, ond rhoddwyd sgôr canfyddiadau drafft Da ar gyfer Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb.

3.6 Y farn gyffredinol ddiwethaf a gyhoeddwyd yn adolygiad 2017 oedd yn gryno;
*'Mae Heddlu Gogledd Cymru'n dda am gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddau, ac mae wedi cynnal perfformiad yn sefydlog ers ein harolwg effeithiolrwydd yn 2016.'*

Gellir gweld yr asesiad llawn ar
https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/peel-assessments/peel-2017/north-wales/

3.7 Gwnaeth SAC y sylwadau canlynol ar eu hasesiad gwerth am arian yn eu llythyr archwilio blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019;

*'Rwy'n fodlon bod gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Cyngor Sir drefniadau priodol ar waith i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau'*

*'Wrth i ni ystyried yr ymatebion gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Chynghorau Sir i'r cwestiynau a osodwyd, amlygwyd maes arfer da gyda chreu Rhaglen Gwelliant Gweithredol (RhGG) a Bwrdd Gwelliant Gweithredol (BGG) yn erbyn cefndir o galedi a'r newidiadau a nodwyd o ran patrymau troseddau.*

*Sefydlwyd y RhGG i adolygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithredol mewn nifer penodol o feysydd yn dilyn newidiadau o ran patrymau troseddau ac adborth o adolygiadau AHGTAEM wedi'u cyfuno ag effaith caledi. Mae gwaith modelu gweithredol ac ariannol manwl wedi'i wneud ar gyfer pob un o'r meysydd dan adolygiad a chyflwynwyd achosion busnes fel rhan o broses cynllunio'r gyllideb 2019-20 i'w gweithredu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae llwyddiant y newidiadau hyn yn cael ei fonitro gan y BGG.'*

Gellir gweld y llythyr archwilio blynyddol yn:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/Document-Library/Information/Publication-Scheme/What-we-spend/Audit/84-WAO-Annual-Audit-Letter.pdf

3.8 Mae'r ddau asesiad yn dangos bod y cyllidebau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod yr Heddlu'n perfformio'n dda wrth wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael, ond cytunodd AHGTAEM â dadansoddiad yr Heddlu bod cydweddu adnoddau'r dyfodol â'r galw a ragwelir yn y dyfodol yn faes y mae angen ei ddatblygu, ac aethpwyd i'r afael â hyn yn rhan o'r broses gynllunio eleni.

## 4 Dyraniadau Cyllid a rhagdybiaethau

4.1 Ni roddodd y Llywodraeth Ddyraniadau Cyllid Dros Dro ar gyfer 2020-21 fel rhan o setliad 2019-20. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae setliadau grant wedi'u cyhoeddi yn y mis Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol, fodd bynnag oherwydd yr Etholiad Cyffredinol, deddfwriaeth Brexit a Llywodraeth newydd, nid yw'r cyhoeddiad wedi'i wneud eto.

4.2 Ar 4 Medi 2019, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys, y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS, a oedd newydd ei benodi, ganlyniad Cylch Gwario 2019 (SR2019) y cyfeirir ato weithiau fel yr 'Adolygiad o Wariant'. Roedd SR2019 yn nodi cyfansymiau gwariant cyhoeddus ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Disgwylir mai SR2019 fydd y sail ar gyfer dyraniadau cyllid ar gyfer 2020-21. Nid oedd SR2019 yn rhoi dyraniadau fesul ardaloedd heddlu ond fe wnaeth gyhoeddi 20,000 o swyddogion ychwanegol yng Nghymru a Lloegr. Yn dilyn hynny, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cael gwybod y bydd yn cael dyraniad o 62 fel y cam cyntaf, sy'n cwmpasu cynnydd o 6,000 erbyn mis Mawrth 2021 yng Nghymru a Lloegr. Nid oes unrhyw fanylion ariannol wedi'u cadarnhau eto. Amcangyfrif cost flynyddol y 62 ar brisiau 2020-21, gan gynnwys offer a hyfforddiant, yw £3.050m. Pan fydd dyraniad y 14,000 o swyddogion pellach yn hysbys, bydd angen ailasesu cost y dyraniad ychwanegol a chostau isadeiledd tebygol. At ddiben y cynllun hwn, cymerir y bydd y grant ychwanegol yn talu'r costau yn 2020-21 yn llawn.

4.3 Mae'r Grant Pensiwn penodol wedi'i barhau i ddechrau am un flwyddyn, ond gyda'r disgwyliad y bydd yn gylchol. Ni roddwyd arwydd am y grant cyffredinol ac felly gwnaed rhagdybiaeth cyllid cyson (dim cynnydd, dim gostyngiad) yn unol â'r CATC blaenorol ac yn gyson â mwyafrif yr Heddluoedd eraill. Cytunwyd ar ddyfarniadau cyflog swyddogion a staff ar 2.5% ym mis Medi 2019, roedd hyn yn uwch na'r cynnydd 2% a amcangyfrifwyd. Mae'r cynnydd 2.5% wedi'i ragdybio ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

4.4 Ni ddisgwylir y bydd toriad i'r grant, os dyfernir cyllid ychwanegol, bydd angen ei ystyried gyda'r cyllid ar gyfer swyddogion ychwanegol, a ffigyrau tebygol yn y dyfodol ar gyfer swyddogion ychwanegol. Gallai'r Heddlu gael 140 o swyddogion ychwanegol, bydd hyn yn rhoi pwysau ar swyddfa gefn a swyddfa canol yn ogystal â chostau ac isadeiledd nad ydynt yn ymwneud â staff.

4.5 Mae'r swm sydd ar gael i blismona'n parhau i gael ei frigdorri, gyda chynnydd arall o £84m yn genedlaethol yn 2019-20. Mae dadansoddiad o'r swm a frigdorrir i'w weld isod. Roedd hyn yn gostwng y grant craidd a dderbyniwyd gan Ogledd Cymru o £10.6m, gyda chyfran fechan yn unig o hwnnw'n cael ei dderbyn fel cyllid ychwanegol neu fudd uniongyrchol. Disgwylir y bydd rhagor o frigdorri yn digwydd yn 2020-21.

| **Cyllid yr Heddlu** | **2017/18 (£m)** | **2018/19 (£m)** | **2019-20 (£m)** |
|---|---|---|---|
| **yn cynnwys ail-ddyraniadau ac addasiadau** | **812** | **945** | **1,029** |
| Cynllun ariannu preifat | 73 | 73 | 73 |
| Rhaglenni technoleg yr Heddlu | 417 | 495 | 495 |
| Cyrff hyd braich | 54 | 63 | 63 |
| Ychwanegiadau i'r Asiantaeth Genedlaethol Troseddau ac Unedau Troseddau Trefnedig Rhanbarthol | | | 56 |
| Cryfhau'r ymateb i droseddu cyfundrefnol | 28 | 42 | 90 |
| Cronfa drawsnewid yr Heddlu | 175 | 175 | 175 |
| Grant Arbennig | 50 | 93 | 73 |
| Mechnïaeth Cyn Cyhuddo | 15 | 4 | 4 |

4.6 Rhagwelir y cynhelir adolygiad o wariant 3 blynedd dros yr haf i baratoi ar gyfer setliadau 2021-22.

4.7 Mae llawer o ansicrwydd ynglŷn â chyllid yn y dyfodol. Ymddengys bod y Swyddfa Gartref yn derbyn bod cyllid yr Heddlu wedi'i gwtogi gymaint â phosibl, ond mae ansicrwydd economaidd ynghlwm â Brexit yn ei gwneud yn anodd darogan pa adnoddau fydd ar gael. Mae golwg ar osod lefel gyson o gyllid o 2020-21 ymlaen.

4.14 Nid oes cynlluniau i adolygu Fformiwla Ddyrannu'r Heddlu tan ar ôl yr Adolygiad o Wariant, ond gallai hyn newid a bydd angen ei adolygu ar ryw bwynt.

## 5. Treth y Cyngor a'r Praesept

5.1 Mae dwy brif elfen i gyfanswm net Cyllideb yr Heddlu, sef cyfanswm Grantiau'r Heddlu a'r Praesept. Mae cynnig y gyllideb yn cynnwys cynnydd o 4.5% yn Nhreth y Cyngor, neu £12.51 ar Dreth y Cyngor Band D. Mae'r Sylfaen Drethi ar gyfer Gogledd Cymru

gyfan wedi codi 0.37%, sy’n golygu cynnydd cyffredinol o 4.89% yn y Praesept a chyfanswm cyllideb net o £158.224m i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd – gweler isod:

| | 2020-21 | |
|---|---|---|
| | | |
| | £m | % |
| Cyfanswm Grantiau'r Llywodraeth | 73.234 | 46.29% |
| | | |
| Cyfanswm Praesept | 84.990 | 53.71% |
| | | |
| Cyfanswm Gofyniad Cyllidebol | 158.224 | |
| | | |

5.2 Cyfrifir Treth y Cyngor drwy rannu cyfanswm y gofyniad praesept gyda'r sylfaen drethi - y sylfaen drethu yw nifer yr eiddo cyfwerth â Band D sydd ym mhob un o ardaloedd yr Heddlu. Darperir y Sylfaen Drethu gan chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Mae’r sylfaen drethu ar gyfer 2020-21 wedi codi rhywfaint, o 0.37%. Mae hyn yn golygu y gellir cyflawni’r cynnydd canrannol yn y praesept gyda chynnydd canrannol is yn Nhreth y Cyngor. Mae hyn yn adlewyrchu’r cynnydd ym mhoblogaeth/cartrefi Gogledd Cymru.

5.3 Mae’r rheolau ar gyfer cyfyngu ar y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, a elwir yn 'reolau capio', yn wahanol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn ychwanegol, mae grantiau ar wahân wedi parhau i fod ar gael i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Lloegr os oeddent yn cytuno i gyfyngu ar gynnydd yn Nhreth y Cyngor yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd y grantiau hyn yn arfer cael eu talu gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ond fe gawsant eu cynnwys yn Grant y Swyddfa Gartref a byddant yn gyfanswm o £507m yn 2019-20. Treth y Cyngor yng Ngogledd Cymru yw'r uchaf yng Nghymru a Lloegr ond pe ystyrid y Grantiau Treth y Cyngor etifeddol hyn, byddai Gogledd Cymru yn yr 8fed safle uchaf.

5.4 Nid oes rheolau capio neu gynnydd tybiedig fel yn y blynyddoedd blaenorol wedi’u cyhoeddi yng Nghymru. Fel arfer cânt eu cyhoeddi, neu rhoddir canllawiau, ar yr un pryd â chyhoeddi’r dyraniadau grant.

## 6. Cyllideb 2020-21 a Chyllideb Gynlluniedig 2021-22 i 2024-25

6.1 Mae manylion y Gyllideb a’r newidiadau ar gyfer 2020-21 a’r blynyddoedd i ddod i’w gweld yn Atodiad B.

6.2 Dyma’r prif ragdybiaethau:

- Chwyddiant tâl blynyddol 2.5% yn weithredol o fis Medi, cynnydd o 2%
- Chwyddiant cyffredinol o 2%, chwyddiant penodol lle bo’n hysbys

- Cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4.5% yn 2020-21 (£12.51) a £12 y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol sydd gyfystyr â 4.13% yn 2021-22, 3.97% yn 2022-23, 3.81% yn 2023-24 a 3.67% yn 2024-25
- Cynnydd mewn grant o 0% yn 2020-21, a setliad cyson o gynnydd grant 0% ar gyfer y blynyddoedd dilynol
- Cynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethu o 2021-22 ymlaen.

Mae hyn yn rhoi sefyllfa gyffredinol fel a ganlyn:

| | Cyllideb Flynyddol 2020-21 | Cyllideb Flynyddol 2021-22 | Cyllideb Flynyddol 2022-23 | Cyllideb Flynyddol 2023-24 | Cyllideb Flynyddol 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Llinell Sylfaen | 154,264 | 158,224 | 161,955 | 165,706 | 169,471 |
| Chwyddiant | 3,960 | 4,662 | 4,559 | 4,802 | 4,621 |
| Twf IT a PEQF | 0 | 1,156 | 213 | 24 | 0 |
| Arbedion | 0 | -126 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | |
| **Gofyniad Cyllidebol** | **158,224** | **163,916** | **166,727** | **170,532** | **174,092** |
| | | | | | |
| Cyfanswm grant | -73,234 | -73,234 | -73,234 | -73,234 | -73,234 |
| Praesept o Dreth y Cyngor | -84,990 | -88,721 | -92,472 | -96,237 | -100,022 |
| **Cyfanswm** | **-158,224** | **-161,955** | **-165,706** | **-169,471** | **-173,256** |
| | | | | | |
| **Balans Blynyddol** | **0** | **1,961** | **1,021** | **1,061** | **836** |
| | | | | | |
| **Balans cronnus** | 0 | 1,961 | 2,982 | 4,042 | 4,878 |
| | | | | | |
| **% y cynnydd yn Nhreth y Cyngor** | 4.50% | 4.13% | 3.97% | 3.81% | 3.67% |
| **Cynnydd mewn £** | 12.51 | 12.00 | 12.00 | 12.00 | 12.00 |

6.3 Ar sail y rhagdybiaethau a nodwyd, bydd angen gwneud arbedion o £4.878m o 2021-22 i 2024-25. Fodd bynnag, mae lefel uchel iawn o ansicrwydd o ran cyllid y Llywodraeth ac ar adeg ysgrifennu, nid oes unrhyw gyhoeddiadau wedi'u gwneud. Pan fydd cyhoeddiadau wedi'u gwneud, bydd angen adolygu'r Cynllun a'i ddiweddaru gyda'r ffigurau terfynol. Mae cyfanswm chwyddiant o £3.960m ar gyfer tâl a materion nad ydynt yn ymwneud â thâl yn gynnydd cyffredinol o 2.57% ar gyfer 2020-21; mae hyn gyfwerth â chynnydd £13.54 / 4.7% mewn Treth y Cyngor ar ben ein hun. Disgwylir y byddai grantiau yn cynyddu yn unol â chwyddiant; fodd bynnag ni fu hyn yn wir dros y 10 mlynedd diwethaf. Fel mesur sensitifrwydd, pe bai grantiau yn cynyddu 1% (a fyddai'n doriad termau real o hyd) dros gyfnod y CATC, byddai'r sefyllfa gyffredinol fel isod. Byddai hyn yn lleihau'r arbediad gofynnol i £1.144m. Gallai hyn gynhyrchu arian dros ben yn 2020-21, ond bydd costau sefydlu sylweddol ar gyfer y swyddogion ychwanegol a fydd angen ei ariannu yn 2020-21, ac felly cynigir bod treth y cyngor yn aros ar y cynnydd £12.51 a gynigir, i'w ddefnyddio ar gyfer gwariant untro mewn blynyddoedd diweddarach.

| | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Flynyddol |
|---|---|---|---|---|---|

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Llinell Sylfaen | 154,264 | 158,956 | 163,427 | 167,925 | 172,444 |
| Chwyddiant | 3,960 | 4,662 | 4,559 | 4,802 | 4,621 |
| Twf IT a PEQF | 0 | 1,156 | 213 | 24 | 0 |
| Arbedion | 0 | -126 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | |
| **Gofyniad Cyllidebol** | **158,224** | **164,648** | **168,199** | **172,751** | **177,065** |
| | | | | | |
| Cyfanswm grant | -73,966 | -74,706 | -75,453 | -76,207 | -76,969 |
| Praesept o Dreth y Cyngor | -84,990 | -88,721 | -92,472 | -96,237 | -100,022 |
| **Cyfanswm** | **-158,956** | **-163,427** | **-167,925** | **-172,444** | **-176,991** |
| | | | | | |
| **Balans Blynyddol** | **-732** | **1,221** | **274** | **307** | **74** |
| | | | | | |
| **Balans cronnus** | -732 | 489 | 763 | 1,069 | 1,143 |
| | | | | | |
| **% y cynnydd yn Nhreth y Cyngor** | 4.50% | 4.13% | 3.97% | 3.81% | 3.67% |
| **Cynnydd mewn £** | 12.51 | 12.00 | 12.00 | 12.00 | 12.00 |

6.5 Mae'r gyllideb wedi'i mantoli ac ail-fuddsoddi wedi digwydd o ganlyniad i'r arbedion a nodwyd o'r RhGG, PRP a phrosesau arferol adolygu'r gyllideb. Mae crynodeb o'r arbedion isod:

| **Arbedion** | **20-21** |
|---|---|
| | £k |
| Rhaglen Gwelliant Gweithredol | 1,376 |
| Ystadau | 50 |
| Caffael | 80 |
| Cyllidebau Arian At Raid | 60 |
| **Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol** | |
| Newidiadau Dulliau/Maint | 278 |
| Gostyngiadau Lefel Gwasanaeth | 514 |
| **Cyfanswm** | **2,358** |

6.5 Nododd y CATC y llynedd faes o risg yn y dyfodol wrth weithredu Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu (PEQF). Bwriad y fframwaith hwn yw arwain at bob swyddog heddlu yn meddu ar gymhwyster lefel 6 erbyn diwedd eu hyfforddiant. O ran costau, bydd cost ychwanegol ffioedd dysgu a hyfforddwyr mewnol ychwanegol a bydd gweithwyr yn methu diwrnodau o waith yn ystod y flwyddyn 1af ac yn ystod yr 2il a'r 3edd flwyddyn newydd o hyfforddiant. Mae tri dull o gael mynediad i'r PEQF: graddedigion sydd â gradd nad yw'n berthnasol yn cwblhau cwrs ôl-raddedig o ddwy flynedd; rhai sy'n cael mynediad heb radd yn cwblhau cwrs tair blynedd gan arwain at radd; y ddau fel Swyddog Heddlu cyflogedig. Y trydydd dull yw ennill gradd mewn Plismona mewn sefydliad addysg cyn cael gwaith fel Swyddog Heddlu; bydd yr ymgeiswyr hyn yn cwblhau hyfforddiant ymarferol yn unig, oherwydd byd y gofyniad addysg eisoes wedi'i gwblhau. Mae costau a chyfraddau tynnu pobl o'r gwaith wedi'u cynnwys yn y CATC yn seiliedig ar gyfraddau recriwtio cyfredol ac amcangyfrif o'r bobl

a fydd yn cael eu tynnu o'r gwaith yn ychwanegol gyda Swyddogion ychwanegol yn eu lle. Caiff y costau hyn eu hariannu o gyfuniad o gyllideb ychwanegol a dyrannu swyddogion ymgyrch Uplift.

6.6 Mae'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol yn nesáu at gael ei chwblhau wedi'i hariannu'n bennaf o gronfeydd wrth gefn. Mae strategaethau Ystadau, TG a Fflyd at y dyfodol yn cael eu paratoi i adlewyrchu gofynion presennol ac effeithiau Ymgyrch Uplift, a byddant yn arwain at ofynion buddsoddi newydd. Nid yw'r Grantiau Cyfalaf yn ddigon i ariannu traean o'r Rhaglen Amnewid Cerbydau flynyddol; ni ellir ond defnyddio cronfeydd wrth gefn unwaith. Mae swm blynyddol o £0.4m wedi'i gynnwys mewn amcangyfrifon o 2020-21 i ariannu buddsoddiadau cyfalaf. Bydd penderfyniadau terfynol ar hyn yn seiliedig ar achosion busnes ond mae'n ddarbodus cynnwys swm yn yr amcangyfrifon gan nad oes unrhyw ffynhonnell newydd arall o gyllid cyfalaf.

6.7 Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn a'r arbedion a nodwyd, caiff cyfanswm o £2.358m o ail fuddsoddiad ei wneud yn 2020-21. Mae hyn wedi'i grynhoi isod ac mae'n cynnwys ail-fuddsoddi £0.278m o newidiadau dull (arbedion effeithlonrwydd) ym mhroses y PRP. Yn ychwanegol, mae'r 62 o swyddogion ychwanegol wedi'u dyrannu fel rhan o broses y PRP hefyd. Mae manylion am y twf wedi'u nodi isod.

| **Twf** | **20-21** |
|---|---|
| | £k |
| Costau Hyfforddiant PEQF | 160 |
| Cyllid Cyfalaf | 400 |
| **Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol** | |
| Prif Gwnstabl – Staff ac adnoddau nad ydynt yn Staff | 1,642 |
| CHTh - Staff ac adnoddau nad ydynt yn Staff | 156 |
| **Cyfanswm** | **2,358** |

6.8 Ymgyrch Uplift, Dyrannu'r 62 Swyddog

**Gwasanaethau Trosedd – 34 swyddog**

- Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn Lleol a Strategol – 19 swyddog

  Mae cam-fanteisio'n rhywiol ar unigolion diamddiffyn wedi bod yn faes lle bu galw cynyddol dros y blynyddoedd diweddar, o ran nifer digwyddiadau a throseddoldeb ar-lein. Mae ymchwiliadau'n cymryd amser a rhaid darparu adnoddau ar eu cyfer, ac mae angen monitro dilynol ar droseddwyr blaenorol hysbys. Gwnaeth proses y PRP amlygu'r angen am adnoddau ychwanegol mewn Unedau Diogelu Pobl Ddiamddiffyn i ddelio â'r gwaith ychwanegol. Mae'r swyddogion wedi'u neilltuo i: Timau Lleol 10; Tîm Amethyst Corfforaethol (Ymchwilio Ymosodiadau Rhyw) 8; a Thîm Ymchwilio Ar-lein Pedoffilyddion 1.

- Uned Troseddau Economaidd – 5 swyddog

Mae hwn yn faes arall lle mae galw cynyddol a amlygwyd gan y broses PRP. Mae hyn yn cynnwys Ditectif Arolygydd i arwain yr Uned yn strategol, ac adnoddau ymchwiliol ychwanegol. Bydd hyn yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i'r Tîm Troseddau Difrifol a Threfnedig hefyd.

- Tîm Troseddau Mawr – 10 swyddog

  Mae canfod ac amharu ar Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol yn flaenoriaeth leol a chenedlaethol. Mae'r gwaith hwn yn cymryd amser ac adnoddau ac mae'r Heddlu wedi bod yn llwyddiannus wrth ddilyn trywydd a chwalu'r Grwpiau hyn y tu mewn i ardal yr Heddlu a thu hwnt. Bydd adnoddau ychwanegol yn gwella'r gwaith a wneir gan y timau.

**Plismona Lleol – 23 swyddog**

- Timau Ymateb 16 Swyddog

  Bydd dyrannu 16 swyddog rheng flaen i'r Timau Ymateb yn cryfhau'r timau, a fydd yn caniatáu i swyddogion ychwanegol weithio pan fydd pobl yn cael eu tynnu o'r gwaith ar gyfer hyfforddiant gyda gweithredu Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu (PEQF). Bydd PEQF yn rhoi gradd i recriwtiaid newydd ar ddiwedd eu hyfforddiant, ond mae hyn yn golygu bod pobl yn methu diwrnodau ychwanegol o waith yn eu hail a'u trydedd flwyddyn fel Swyddogion.

- Diogelwch Cymunedol 5 swyddog

  Mae'r rhain yn cynnwys 3 swyddog ychwanegol yn y Tîm Troseddau Gwledig ac Arolygydd i weithio gyda sefydliadau partner a Swyddog ychwanegol ar gyfer yr Uned Rheoli Troseddwyr Integredig.

- Aseswyr 2 swyddog

  Mae angen Swyddog Asesu Prawf ychwanegol i ddelio â'r cynnydd o ran recriwtio Swyddogion.

**Eraill – 5 swyddog**

- Yn cwmpasu Cynrychiolaeth Gweithlu, Iechyd a Lles, Uned Gwrth-Lygru (PSD), Swyddfa Rheoli'r Rhaglen , NPCC.
  Mae'r meysydd eraill wedi'u nodi o'r blaenoriaethau, Datganiad Rheoli'r Heddlu a phroses y PRP.

6.9 **Newidiadau staff o faint PRP a newidiadau o ran dull ac ychwanegiadau – 22.62 o swyddi:**

**Gwasanaethau Trosedd – 6.3 swyddog cyfwerth â llawn amser**

- Gwybodaeth – Llinellau Sirol a Phecynnau Drylliau Tanio
- Uned Cyfeirio Canolog

Swyddi dadansoddwr yw'r rhain i gefnogi'r swyddogion ychwanegol mewn Gwasanaethau Trosedd ac i wasanaethu galw ychwanegol ar reoli gwybodaeth.

**Gwasanaethau Cymorth Gweithredol – 3 cyfwerth â llawn amser**

- Trwyddedu Drylliau Tanio

Mae nifer y trwyddedau a gaiff eu hadnewyddu yn amrywio'n sylweddol o'r naill flwyddyn i'r llall, o ganlyniad i'r cylch adnewyddu, sy'n creu cynnydd o ran galw am ddwy flynedd ym mhob cyfnod pum mlynedd.

**Gwasanaethau Corfforaethol - 10.32 cyfwerth â llawn amser**

- Hyfforddiant – Academi Troseddau (cynnydd o ran nifer ditectifs), TGCh, Hyfforddiant Gyrwyr, nifer ychwanegol o swyddogion Taser
- Iechyd a Lles
- Ailstrwythuro AD a SSF

Amlygwyd iechyd a lles a hyfforddiant swyddogion a Staff fel maes mae angen buddsoddi ynddo yn y Datganiad Rheoli'r Heddlu; mae Ymgyrch Uplift a mentrau eraill fel defnyddio rhagor o offer Taser wedi arwain ar ragor o alw. Mae cyfran uchel o'r rolau Swyddogion newydd yn dditectifs, sydd wedi bod yn batrwm mewn blynyddoedd diweddar, mae hyn yn golygu bod angen cynnydd yn nifer y ditectifs newydd sy'n cael eu hyfforddi.

**Cyllid ac Adnoddau – 2 cyfwerth â llawn amser**

- Swyddogion Cymorth Busnes

Mae'r rhain yn rolau hanfodol i sicrhau bod lefel y newid a brofir yn cael ei rheoli a bod busnes o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni'n effeithlon.

- **Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd – 1 Cyfwerth â Llawn Amser**

Cynnydd o 1 Swyddog Polisi a Chraffu i adlewyrchu lefel y datblygiad a'r newid sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

6.10 Mae newidiadau nad ydynt yn ymwneud â staff wedi'u nodi isod:

Nid Staff:
Technoleg Gwybodaeth £0.745m – Mae datblygiadau sylweddol ym maes TG, gan gynnwys y Rhaglen Alluogi Genedlaethol, cyfarpar fideo a wisgir ar y corff a dyfeisiau 2 mewn 1 personol. Bydd hyn yn arwain at sicrhau bod technoleg a meddalwedd gwell ar gael i swyddogion rheng flaen ar unrhyw adeg.

Ffioedd dysgu PEQF £0.160m, fel a gafodd ei gynnwys yn y CATC blaenorol

Ariannu Cyfalaf – cynnydd blynyddol o £0.400m (wedi'i gynnwys fel eitem untro yn y CATC blaenorol), mae hyn yn ofynnol gan mai swm isel yw'r grant cyfalaf gan y llywodraeth, ac mae'r cronfeydd wrth gefn yn lleihau.

Cyflenwadau a Gwasanaethau eraill £0.103m, gan mwyaf i ffurfioli ychwanegedd Cronfa Diogelwch Cymunedol ar gyfer y Gronfa Ymyrraeth Gynnar (£0.100m) a oedd ar sail dros dro yn 2019-20.

6.11 Yn ychwanegol, bydd twf dros dro yn cael ei ariannu o'r gronfa wrth gefn Rheoli Newid i alluogi gweithredu prosiectau a datblygiadau fel isod:

**OSS – 15 swydd**

- Cartrefi Ar-lein Sengl (Desg Ddigidol)
- Uwchraddio Gorchymyn a Rheoli

**Gwasanaethau Trosedd – 2 swydd**

- Prosiect ANPR
- Swyddog Gwybodaeth ar gyfer Ymholiadau Gwybodaeth yn amodol ar ganlyniad Brexit

**Pobl a Datblygu Sefydliadol – 6.4 cyfwerth â llawn amser**

- Uned Systemau Busnes
- PEQF
- Trawsnewid Digidol

6.12 Bydd ail-fuddsoddi £2.358m ynghyd â'r 62 swyddog ymgyrch Uplift ychwanegol yn galluogi buddsoddiad sylweddol, ond bydd hyn yn ei dro yn rhoi pwysau ar gyllidebau eraill i gefnogi'r buddsoddiad hwn. Mae hyn wedi cael sylw i ryw raddau ond nes bydd y ffigurau ariannu ar gyfer y swyddogion ychwanegol a'r grant wedi'u cyhoeddi ar gyfer 2020-21, ni fydd yn glir a oes bylchau pellach.

## 7. Risgiau

7.1 Nid yw cyllid ar gyfer 2020-21 wedi'i gyhoeddi a gallai fod yn annigonol i ariannu'r Cynllun, gan gynnwys swyddogion ymgyrch Uplift. Ar gyfer un flwyddyn yn unig y bydd y cyllid. Mae twf o'r cyllid ar gyfer swyddogion ychwanegol, a'r cyllid praesept, yn ogystal ag ail-fuddsoddi, yn rhoi pwysau ar y gyllideb sy'n weddill, ac mae'n golygu bod arbedion effeithlonrwydd yn anoddach i'w cyflawni.

7.2 Bydd y Llywodraeth yn cynnal adolygiad o wariant yn 2020 i lywio cyllid 2021-22, sy'n golygu bod ansicrwydd o ran ariannu yn uchel. Mae'r ansicrwydd o ran Brexit a'r effaith economaidd ddilynol yn creu rhagor o ansicrwydd.

7.3 Un o'r risgiau mwyaf dros y blynyddoedd nesaf yw'r fformiwla ariannu oherwydd sensitifrwydd a diffyg gwybodaeth o ran y fformiwla newydd. Roedd y ffigurau a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref yn ystod adolygiad 2015-16 yn dangos bod dyraniad Gogledd Cymru yn cynyddu o 1.03% i 1.06% o'r cyfanswm. Roedd hyn gyfwerth â £2m o gyllid ychwanegol; roedd amcangyfrifon a ddarparwyd yn

ddiweddarach gan Ddyfnaint a Chernyw yn dangos bod dyraniad Gogledd Cymru yn lleihau £14.5m, gan ddangos sensitifrwydd newidiadau o'r fath. Nid yw'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi eu bwriad o ran adolygu'r fformiwla.

7.4 Mae risgiau cenedlaethol a lleol newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, y mae angen adnoddau ar eu cyfer, fel Llinellau Sirol, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Seiberdroseddu, wedi cael sylw yn y gyllideb. Fodd bynnag, mae risgiau newydd yn datblygu'n barhaus ac mae'r cynnydd o ran nifer a chymhlethdod troseddau yn risg.

7.5 Mae datblygiadau cenedlaethol fel Ymgyrch Uplift a PEQF a nodwyd mewn adrannau cynharach yn creu risgiau ariannol a gweithredol. Bwriad y system newydd ar gyfer Cyfathrebu'r Heddlu (ESN) oedd sicrhau arbedion, ond nid yw'r rhain wedi'u cadarnhau eto. Mae oedi wedi arwain at gostau ychwanegol a fydd yn debygol o effeithio ar Heddlu Gogledd Cymru, naill ai drwy gynnydd mewn brigdorri, neu gynnydd mewn costau i'r heddlu. Mae cost ychwanegol darparu'r TG ddiweddaraf, p'un a yw'r rhain yn systemau cenedlaethol gorfodol ai peidio, a'r newid o ran model darparu o brynu i danysgrifio, yn risg ariannu ychwanegol.

7.6 Nid yw arbedion posibl yn 2020-21 wedi'u gwireddu eto. Mae'r cynlluniau hyn yn aeddfed a disgwylir i'r arbedion hyn gael eu cyflawni. Mae cynlluniau y tu hwnt i 2021-22 yn cael eu datblygu. Bydd arbedion effeithlonrwydd yn dod yn anoddach eu gwireddu gyda gofynion Ymgyrch Uplift, sy'n golygu bod rhaid cynnal niferoedd swyddogion.

7.7 Mae'r cyllidebau a amcangyfrifir sydd wedi'u nodi yn seiliedig ar gytuno ar y rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer cynnydd yn Nhreth y Cyngor. Pe bai hyn yn cael ei ostwng, byddai pob gostyngiad o 1% yn golygu toriad ychwanegol o £0.813m mewn cyllidebau.

7.8 Mae'r Swyddfa Gartref wedi brigdorri'r symiau a gaiff eu dyrannu i ardaloedd yr Heddlu yn y blynyddoedd diweddar i ariannu unedau a mentrau cenedlaethol. Cynyddwyd brigdorri 26% dros gyfnod 2017-18 i 2019-20 i gyfanswm o £1,029m. Gallai unrhyw fentrau newydd arwain at ragor o frigdorri.

7.9 Gallai toriadau pellach ddigwydd os bydd yr hinsawdd economaidd yn gwaethygu. Mae pob toriad 1% ychwanegol i'r Cyllid Grant Cyffredinol yn ostyngiad arian parod o £0.732m.

7.10 Gan fod 80% o'r gyllideb net yn cael ei wario ar gyflogau, gall unrhyw newidiadau bach o ran cynnydd tâl, cyfraniadau pensiwn neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol, Ardoll Brentisiaethau, neu unrhyw wariant arall sy'n gysylltiedig â thâl, gael effaith anghymesur ar y gyllideb. Mae pob cynnydd tâl 1% yn cael effaith blwyddyn gyfan o gynnydd £1.334m ychwanegol mewn costau. Gwelwyd cynnydd mewn costau pensiwn yn 2019-20, ac maent hefyd yn cael effaith sylweddol ar gyllidebau. Os na chaiff grantiau eu cynyddu yn unol â chostau chwyddiannol, mae cost chwyddiant tâl naill ai yn dod ar dreth y cyngor neu rhaid ei ariannu gan doriadau. Mae'r risg na fydd chwyddiant yn cael ei gydnabod fel rhan o setliad y Llywodraeth yn sylweddol.

7.11 Mae chwyddiant wedi bod yn isel yn y blynyddoedd diweddar ac mae rhagdybiaethau'r gyllideb yn adlewyrchu hyn, fodd bynnag gallai hyn newid yn enwedig mewn meysydd fel tanwydd ac ynni lle gall prisiau fod yn gyfnewidiol iawn.

7.12 Mae'r tabl isod yn amlygu sensitifrwydd y prif ragdybiaethau.

| Prif Newidynnau | £m |
|---|---|
| **Newid o 1% yn Nhreth y Cyngor** | 0.813 |
| **Newid o 1% yn y grant** | 0.732 |
| **Newid o 1% yn y cyflogau** | 1.334 |
| **Newid o 1% mewn chwyddiant cyffredinol** | 0.442 |

7.13 Mae cost ychwanegol darparu'r TG ddiweddaraf, a'r newid o ran model darparu o brynu i danysgrifio, yn risg sy'n datblygu.

## 8. Cyfalaf

8.1 Mae'r Rhaglen Gyfalaf a ddechreuodd yn 2013-14 wedi dod i ben. Erbyn diwedd 2019-20 bydd y canlynol wedi'i gyflawni:

- 4 cyfleuster mawr newydd yn Llangefni, Llandudno a Wrecsam (2 adeilad)
- 20 cyfleuster wedi'i ailwampio ac adleoliadau
- Parhau â'r Rhaglen Amnewid Cerbydau
- Uwchraddio rhwydweithiau, gweinyddwyr, byrddau gwaith, dyfeisiau symudol a newid systemau technoleg yr Ystafell Reoli.

8.2 Mae angen buddsoddiad parhaus mewn asedau ac isadeiledd y CHTh er mwyn sicrhau amgylchedd gwaith effeithlon a modern. Datblygwyd strategaethau ar gyfer Ystadau, TG a Fflyd y llynedd, a chytunwyd ar Raglen Gyfalaf newydd. Fodd bynnag, ers i'r Rhaglen gael ei pharatoi, gwnaed cyhoeddiad am y nifer ychwanegol o Swyddogion. Y cwota cychwynnol yw ar gyfer 62 ychwanegol, ond gallai hyn gynyddu i tua 200, a staff cymorth. Bydd hyn yn golygu y bydd angen diwygio'r rhaglen Ystadau pan fydd y gofynion llawn yn hysbys. Mae'r swm cychwynnol a ddyrannwyd i hyn wedi'i ddangos fel Adolygiad Ystadau 2 yn Atodiad B.

8.3 Bydd gwaith ailwampio Pwllheli yn dechrau yn ystod y flwyddyn ariannol hon a bydd yn cael ei orffen y flwyddyn nesaf. Bydd adleoli'r Gweithdy Cerbydau, sy'n cael ei rentu ar hyn o bryd, yn dechrau'r flwyddyn nesaf, yn amodol ar Achos Busnes terfynol. Mae gwaith arall yn safle'r Pencadlys a'r safle Drylliau Tanio wedi'u cynllunio ar gyfer 2020-21.

8.4 Mae angen buddsoddiad sylweddol ar gyfer TG. Mae hwn yn cael ei gyfarwyddo gan y Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Digidol. Bydd rhoi dyfeisiau personol sy'n gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd i swyddogion gweithredol a staff yn galluogi gweithio ystwyth, a maes o law bydd pob dyfais yn gallu defnyddio'r Rhaglen Galluogi Genedlaethol o

ran y feddalwedd ddiweddaraf sydd ar gael. Mae achosion busnes amlinellol wedi eu darparu ym mhob maes, mae’r achosion manwl a manteision busnes yn cael eu datblygu. Mae’r rhaglen hefyd yn cynnwys newid y cyfarpar fideo a wisgir ar y corff. Mae buddsoddiad ychwanegol o £4.056m wedi’i amcangyfrif ar gyfer cyfnod 2019-20 i 2024-25, fel a nodir isod.

| Rhaglen Gyfalaf 2019-20 i 2024-25 | Cynnydd |
|---|---|
| Prosiect | £'m |
| | |
| Dyfeisiau 2 mewn 1, gliniaduron a chyfrifiaduron desg | 2,841 |
| Loceri ar gyfer gwefru a storio | 200 |
| App symudol / Defnyddio Life X | 471 |
| Isadeiledd NEP/Sail Point/Dolenni Rhyngrwyd | 208 |
| Gwybodaeth ac Ymchwiliad Digidol | 211 |
| Rheoli Tystiolaeth Ddigidol | 125 |
| | |
| Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 4,056 |

8.5 Mae’r rhaglen yn fforddiadwy ac wedi’i hariannu yn defnyddio cyfuniad o grantiau, cronfeydd wrth gefn, cyfraniad refeniw uniongyrchol a benthyca. Y strategaeth gyffredinol yw lleihau benthyca a gwneud y mwyaf o’r symiau a gaiff eu hariannu’n llawn yn ystod y flwyddyn brynu drwy ddefnyddio cyfraniad refeniw uniongyrchol a derbyniadau cyfalaf sydd, yn eu tro, yn lleihau taliadau llog ac ad-daliadau cyfalaf yn y blynyddoedd dilynol.

8.6 Mae’r ffigyrau cyfalaf ar gael yn Atodiad C; bydd y cynllun manwl terfynol yn cael ei gymeradwyo’n ffurfiol fel rhan o’r Strategaeth Cyfalaf, sy’n cynnwys y Strategaeth Cod Darbodus a Rheoli’r Trysorlys ym mis Mawrth 2020. Mae crynodeb o’r Rhaglen ac ariannu i’w weld isod.

8.7 Pan fydd goblygiadau llawn ymgyrch Uplift yn hysbys, gan gynnwys dyrannu swyddogion ychwanegol yn 2021-22 a 2022-23, bydd angen adolygu’r Rhaglen Gyfalaf.

## 8.8 Rhaglen Gyfalaf 2019-20 i 2024-25

| Cyf | Disgrifiad | 2019-20 Cyllideb Ddiwygiedig £000 | 2020-21 Amc £000 | 2021-22 Amc £000 | 2022-23 Amc £000 | 2023-24 Amc £000 | 2024-25 Amc £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm Gwaith Adeiladu | 1,371 | 4,529 | 3,995 | 3,479 | 3,891 | 1,433 |
| | Cyfanswm Cerbydau ac Offer eraill | 2,342 | 1,800 | 1,300 | 1,855 | 1,300 | 1,300 |
| | Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 5,463 | 3,146 | 2,145 | 750 | 1,880 | 750 |
| | Cyfanswm | **9,176** | **9,475** | **7,440** | **6,084** | **7,071** | **3,483** |
| | **Cyllid** | | | | | | |
| 46 | Grant y Swyddfa Gartref | 462 | 462 | 462 | 462 | 462 | 462 |
| 47 | Cyfraniad Refeniw | 2,269 | 1,643 | 1,516 | 1,238 | 1,238 | 1,238 |
| 48 | Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 3,536 | 1,608 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 49 | Derbyniadau Cyfalaf | 475 | 155 | 377 | 100 | 1,420 | 475 |
| 50 | Benthyca ar gyfer Ystadau | 774 | 4,141 | 3,895 | 3,379 | 3,141 | 958 |
| 51 | Benthyca ar gyfer rhaglen newid offer | 1,660 | 1,466 | 1,190 | 905 | 810 | 350 |
| | **Cyfanswm Cyllid** | **9,176** | **9,475** | **7,440** | **6,084** | **7,071** | **3,483** |
| 52 | Ffynonellau allanol | 462 | 462 | 462 | 462 | 462 | 462 |
| 53 | Adnoddau ein hunain | 6,280 | 3,406 | 1,893 | 1,338 | 2,658 | 1,713 |
| 54 | Dyled | 2,434 | 5,607 | 5,085 | 4,284 | 3,951 | 1,308 |
| | **CYFANSWM** | **9,176** | **9,475** | **7,440** | **6,084** | **7,071** | **3,483** |
| | | | | | | | |

## 9. Cronfeydd wrth Gefn

9.1 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd i sicrhau bod ganddo gronfeydd wrth gefn digonol i reoli risgiau. Yn ogystal â'r risgiau ariannu a'r rhagolygon uchod, mae'n rhaid i'r Comisiynydd baratoi ar gyfer risg gwariant (gwario mwy na'r gyllideb), a digwyddiadau mawr costus, trychinebau naturiol neu ddigwyddiadau eraill nad oes modd eu rhagweld. Mae elfen o'r risg yma wedi'i rheoli drwy'r cyllidebau yn ystod y flwyddyn drwy'r cyllidebau arian at raid. Mae'r rhain wedi'u lleihau ac mae cyfran uwch o'r risg honno wedi'i throsglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn.

9.2 Adolygir y cronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses gyllidebol ac wrth gynhyrchu Datganiad Cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a bydd y sefyllfa derfynol yn hysbys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

9.3 Y bwriad yw lleihau'r cronfeydd wrth gefn o £23.643m i £15.665m dros y 5 mlynedd nesaf. Bwriedir buddsoddi yn defnyddio'r gronfa rheoli i wneud y newidiadau angenrheidiol yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Bydd defnydd wedi'i gynllunio o'r gronfa wrth gefn PFI yn dechrau yn 2020-21, mae'r gronfa hon wedi'i hail-osod yn dilyn gostyngiad a drafodwyd o ran cost y contract PFI. Bwriedir trosglwyddo £1.2m o'r gronfa wrth gefn PFI i'r Gronfa Cynnal a Chadw Ystadau ar ddiwedd 2019-20. Mae amcangyfrif o ddefnydd y Gronfa Cynnal a Chadw Ystadau wedi'i gynnwys yn y rhagdybiaethau. Mae disgrifiad o bob cronfa wrth gefn wedi'i roi ym mharagraff 9.6.

9.4 Mae'r cronfeydd wrth gefn yn agosáu at ran isaf yr ystod sy'n dderbyniol, gan ystyried y risgiau ariannol sydd wedi eu trosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn o'r cyllidebau blynyddol dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd unrhyw wariant sylweddol sydd heb ei gynllunio yn golygu y bydd angen ailgyflenwi'r cronfeydd wrth gefn er mwyn rheoli risgiau yn y dyfodol.

**Sefyllfa Cronfeydd wrth Gefn**

| *Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio* | 31.3.19 Balans £m | 31.3.20 Balans £m | 31.3.21 Balans £m | 31.3.22 Balans £m | 31.3.23 Balans £m | 31.3.24 Balans £m | 31.3.25 Balans £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 0.009 | 1.960 | 2.505 | 2.128 | 2.178 | 1.258 | 1.158 |
| Balans y Gronfa Gyffredinol | 4.392 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 |
| Cronfa Gyffredinol wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | 19.251 | 14.374 | 11.861 | 11.373 | 10.768 | 10.043 | 9.318 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio** | **23.652** | **21.523** | **19.555** | **18.690** | **18.135** | **16.490** | **15.665** |

**Cronfa Gyffredinol wrth Gefn wedi'i Chlustnodi**

| **Disgrifiad** | **31.3.19 £m** | **31.3.20 £m** | **31.3.21 £m** | **31.3.22 £m** | **31.3.23 £m** | **31.3.24 £m** | **31.3.25 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddiad Cyfalaf** | 2.059 | 1.243 | 0.633 | 0.633 | 0.633 | 0.633 | 0.633 |
| **Digwyddiad mawr** | 2.435 | 2.310 | 2.310 | 2.310 | 2.310 | 2.310 | 2.310 |
| **Cronfa Bensiwn Salwch wrth Gefn** | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 |
| **Cronfa Wrth Gefn Yswiriant** | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 |
| **Cronfa Wrth Gefn PFI** | 4.333 | 3.177 | 3.106 | 2.918 | 2.613 | 2.188 | 1.763 |
| **Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau** | 1.033 | 1.816 | 1.516 | 1.216 | 0.916 | 0.616 | 0.316 |
| **Rheoli Newid** | 5.950 | 2.387 | 0.855 | 0.855 | 0.855 | 0.855 | 0.855 |
| **Cronfa wrth Gefn Partneriaethau** | 0.654 | 0.654 | 0.654 | 0.654 | 0.654 | 0.654 | 0.654 |
| **Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd** | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 |
| **Cronfa Gyfreithiol Swyddfa'r Comisiynydd** | 0.056 | 0.056 | 0.056 | 0.056 | 0.056 | 0.056 | 0.056 |
| **Cronfa wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd** | 0.143 | 0.143 | 0.143 | 0.143 | 0.143 | 0.143 | 0.143 |
| **Cyfanswm** | **19.251** | **14.374** | **11.861** | **11.373** | **10.768** | **10.043** | **9.318** |

9.5 Bydd defnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar y penderfyniadau terfynol ar wariant cyfalaf a'r sefyllfa refeniw derfynol yn 2019-20, felly mae'r tabl isod yn dangos yr amcangyfrif presennol i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gefnogi gwasanaethau a lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Os nad yw'r defnydd o'r gronfa wrth gefn yn hysbys (megis cronfa wrth gefn digwyddiadau mawr) ni ddangosir unrhyw newid. Mae manylion y sefyllfa a ragwelir mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn ar ddiwedd bob blwyddyn wedi'u nodi yn y tabl.

9.6 Mae'r Gweinidog Plismona wedi cyhoeddi canllawiau newydd ar dryloywder cronfeydd yn ystod 2018-20. Mae'r tablau isod yn dangos y cronfeydd fel maent wedi'u categoreiddio gan y canllawiau.

| | **31.3.19 £m** | **31.3.20 £m** | **31.3.21 £m** | **31.3.22 £m** | **31.3.23 £m** | **31.3.24 £m** | **31.3.25 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd ar Ddiwedd y Flwyddyn | 23.643 | 19.563 | 17.050 | 16.562 | 15.957 | 15.232 | 14.507 |
| **Cronfeydd wrth gefn cyffredinol** | 4.392 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 |
| **Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | | | | | | |
| a gedwir i ddiogelu yn erbyn risgiau cyllidebol | 4.722 | 4.597 | 4.597 | 4.597 | 4.597 | 4.597 | 4.597 |
| a gedwir i gefnogi'r gyllideb tymor canolig | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 |
| a gedwir i hwyluso rhaglenni newid | 6.983 | 4.203 | 2.371 | 2.071 | 1.771 | 1.471 | 1.171 |
| a gedwir hyd nes bydd diffyg yn y dyfodol ar gontractau PFI | 4.333 | 3.177 | 3.106 | 2.918 | 2.613 | 2.188 | 1.763 |
| sydd wedi'u hymrwymo i raglenni cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod | 2.059 | 1.243 | 0.633 | 0.633 | 0.633 | 0.633 | 0.633 |
| sy'n Gronfeydd Wrth Gefn eraill a Glustnodwyd | | | | | | | |
| sy'n Gronfeydd a gedwir ar ran sefydliadau eraill | 0.654 | 0.654 | 0.654 | 0.654 | 0.654 | 0.654 | 0.654 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn** | **23.643** | **19.563** | **17.050** | **16.562** | **15.957** | **15.232** | **14.507** |
| | | | | | | | |
| **Grantiau a Chronfeydd Wrth Gefn Cyfalaf** | | | | | | | |
| sy'n grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| sy'n gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn | 0.009 | 1.960 | 2.505 | 2.128 | 2.178 | 1.258 | 1.158 |
| arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM y cronfeydd wrth gefn** | **23.652** | **21.523** | **19.555** | **18.690** | **18.135** | **16.490** | **15.665** |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| Cyfanswm Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn wedi'u dadansoddi fel a ganlyn: | | | | | | | |
| Cyllid ar gyfer prosiectau a rhaglenni dros gyfnod y CATC presennol | 10.196 | 6.600 | 4.158 | 3.858 | 3.558 | 3.258 | 2.958 |
| Cyllid ar gyfer prosiectau a rhaglenni y tu hwnt i'r CATC presennol | 9.055 | 7.774 | 7.703 | 7.515 | 7.210 | 6.785 | 6.360 |
| Arian At Raid Cyffredinol | 4.392 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 |
| **CYFANSWM (Rhaid iddo fod gyfwerth â'r cyfanswm uchod – llinell 28)** | **23.643** | **19.563** | **17.050** | **16.562** | **15.957** | **15.232** | **14.507** |
| | | | | | | | |

**9.7** **Cronfa Buddsoddiad Cyfalaf (Cyfalaf) –** I'w defnyddio i fuddsoddi yn asedau ac isadeiledd yr Heddlu i wella gwasanaethau a lleihau gwariant refeniw.

**Cronfa Digwyddiadau Mawr (Risg) –** I'w defnyddio pan fo digwyddiad mawr yn gofyn am adnoddau ychwanegol i'r rheiny yn y gyllideb flynyddol. Mae'r gronfa hon wedi arwain at leihau'r gyllideb digwyddiadau mawr wrth gefn.

**Cronfa Bensiwn Salwch Wrth Gefn (Risg) –** Mae'n rhaid i'r Heddlu dalu swm untro sydd cyfwerth â dwywaith cyflog swyddog ar gyfer pob Ymddeoliad Ar Sail Salwch. Mae cadw'r Gronfa Wrth Gefn yn mynd i'r afael ag amrywioldeb o'r naill flwyddyn i'r llall o ran yr eitemau nifer isel, cost uchel hyn.

**Yswiriant (Risg) –** Mae hwn yn ymwneud â'r Municipal Mutual Insurance Limited scheme of Arrangement a all arwain at daliad terfynol o oddeutu £0.432m; mae'r balans wedi'i glustnodi ar gyfer hawliadau sy'n dod i'r amlwg a hawliadau anhysbys yn y dyfodol, sydd wedi'u nodi gan y brocer yswiriant.

**Cronfa Wrth Gefn PFI (Refeniw wedi'i glustnodi) –** Mae angen y gronfa hon gan fod y cyllid ar gyfer PFI gan y Llywodraeth yn lleihau pob blwyddyn; a bydd y gronfa yn lleihau yn ystod cyfnod y contract PFI.

**Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau (Refeniw wedi'i Glustnodi) –** I ariannu gwaith cynnal a chadw a diogelwch ychwanegol nad yw wedi'i gynnwys yn y cyllidebau refeniw na chyfalaf.

**Rheoli Newid (Refeniw wedi'i Glustnodi) –** Buddsoddiad sydd ei angen i hwyluso newid a lleihau costau yn y tymor hir.

**Cronfa Wrth Gefn Partneriaethau (Refeniw wedi'i Glustnodi) –** Balansau a gedwir ar gyfer partneriaethau penodol a fydd naill ai'n cael eu defnyddio neu eu cadw hyd nes bydd cyllid yn cael ei dynnu'n ôl ac yn arwain at gostau ychwanegol.

**Cronfa Diogelwch Cymunedol (Refeniw wedi'i Glustnodi) –** I ddarparu adnoddau ychwanegol i'r Gronfa Diogelwch Cymunedol.

**Cronfeydd Wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd (Refeniw wedi'i Glustnodi) –** Cronfa wrth gefn y swyddfa, cronfa gyfreithiol a chyllideb gyfranogi.

## 10 Crynodeb

10.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi cynlluniau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y cyllidebau refeniw a chyfalaf a defnydd cronfeydd wrth gefn dros y 5 mlynedd nesaf.

10.2 Mae cynnydd o ran pwysau cost o chwyddiant a gofynion newydd wedi arwain at orfod gwneud penderfyniadau anodd yn ystod y cylch cynllunio hwn. Mae'r costau ychwanegol hyn yn dilyn cyfnod o wyth mlynedd lle mae £33m o arbedion wedi'u

cymryd o gyllidebau. Mae’r galw sy’n dod i’r amlwg ar adnoddau gweithredol hefyd yn ychwanegu at y pwysau ariannol.

10.3 Mae’r Comisiynydd wedi ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Cyflawnwyd gwaith helaeth gan y broses PRP er mwyn nodi arbedion a symud adnoddau o fewn y sefydliad. Gwnaeth y broses PRP hefyd alluogi dyrannu 62 o swyddogion Ymgyrch Uplift mewn modd deallus, ar sail blaenoriaethau. Mae chwyddiant cyflog wedi cynyddu wrth i'r Llywodraeth lacio cyfyngiadau tâl y sector cyhoeddus. Byddai angen cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4.7% er mwyn talu costau chwyddiant yn seiliedig ar y setliad grant gwastad. Mae adnoddau ychwanegol wedi dod ar gael wrth i swyddogion ychwanegol gael eu cyhoeddi; fodd bynnag nid yw’n glir a fydd cost lawn y swyddogion ychwanegol, gan gynnwys cefnogaeth ac isadeiledd, yn cael ei hariannu. Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, cynigir cynnydd o £12.51 (45%) yn nhreth y cyngor. Hwn yw’r cynnydd treth y cyngor/praesept gofalus isaf, o ystyried nad yw cyllid cyffredinol, cyllid Ymgyrch Uplift cam 1, na dyraniad cam 2 Ymgyrch Uplift, wedi’u cyhoeddi.

## Atodiad A

# Y Strategaeth Ariannol

**Amcanion Strategol Ariannol:**

- Blaenoriaethu adnoddau i alinio cynlluniau gwario gyda gweledigaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac amcanion strategol y Prif Gwnstabl fel a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd
- Cynnal sefyllfa gyllidebol gytbwys a gosod cynllun ariannol tymor canolig sy'n cefnogi'r gwasanaeth drwy'r cyfnod o ariannu is
- Darparu gwerth am arian i drethdalwyr lleol
- Arfer uniondeb, bod yn ddarbodus a sicrhau rheoli ariannol cryf
- Darparu fframwaith gadarn i gynorthwyo â'r broses gwneud penderfyniadau
- Rheoli risg, gan gynnwys cynnal cronfeydd wrth gefn ar lefel addas wrth fynd i lefel gynaliadwy o ran dyled
- Adolygu cyllidebau'n barhaus i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu at amcanion allweddol

Er mwyn cyflawni'r amcanion strategol, caiff gwaith cynllunio ei wneud yn y meysydd canlynol:

**Cynllunio Corfforaethol a Chynllunio Busnes**

- Integreiddio cynllunio gweithredol a chynllunio ariannol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio i gefnogi'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun yr Heddlu a Throsedd, a pharu adnoddau gydag amcanion corfforaethol
- Cynhyrchu cynllun ariannol ar gyfer y 3 i 5 mlynedd nesaf a fydd yn cynnwys prif brosiectau cyfalaf a refeniw'r CHTh a'r heddlu, a'r strategaethau TG ac Ystadau a darparu cyllid cynaliadwy dros y tymor byr a'r tymor canolig
- Cynhyrchu cyllideb refeniw a chyfalaf flynyddol fanwl sy'n cefnogi'r dull mwyaf effeithiol o ddefnyddio adnoddau

**Rheoli Risg – Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau**

- Cynnal cronfeydd wrth gefn a darpariaethau digonol i sicrhau bod y rhaglen polisi tymor canolig yn gynaliadwy a bod modd ei darparu
- Ceisio mantoli'r gyllideb refeniw dros y tymor canolig heb ddibynnu ar ddefnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol
- Cynnal y 3 lefel o gadernid drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a darpariaethau:

    1. Rheoli'r Gyllideb Flynyddol
    2. Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd gan gynnwys y Gronfa Wrth Gefn Digwyddiadau Mawr
    3. Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol o rhwng 3% a 5% o wariant refeniw net

**Rheoli Risg – Fframwaith Rheoli Ariannol**

- Cynnal fframwaith rheoli ariannol; mae hyn yn allweddol i gynnal safonau effeithiol o ran gweinyddiaeth a stiwardiaeth ariannol. Caiff hyn ei gyflawni drwy'r canlynol:

  Cydymffurfio â:
  - Rheolau a Rheoliadau Statudol
  - Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref
  - Cod Llywodraethu Corfforaethol
  - Nodiadau Polisïau a Gweithdrefnau
  - Rheoliadau Ariannol ac Archebion Sefydlog
  - Strategaeth Gyfalaf gan gynnwys y Polisi Rheoli Trysorlys a chydymffurfio â'r Cod Darbodus
  - Codau Ymddygiad Proffesiynol

  A hefyd:
  - Gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol
  - Rheoli Risg

- Cynnal a datblygu systemau ariannol digonol i gofnodi a rheoli adnoddau

- Alinio cyfrifoldeb ariannol ar y lefel weithredol gyda'r rheolaeth neu ddylanwad rheoli priodol
- Sicrhau bod gwybodaeth ariannol gywir, ddiweddar ac amserol ar gael i alluogi defnyddwyr i'w defnyddio'n effeithiol wrth wneud penderfyniadau.

**Atodiad B**

## Cyllideb Refeniw 2019-20 i 2024-25

**Cyf Disgrifiad**

**Cyllideb 2019-20 i 2024-25**

| Cyf | | Cyllideb Flynyddol 2019-20 | +'Cyn -' Gost (cyllideb net) 2020-21 | Cyllideb Flynyddol 2020-21 | Cyllideb Flynyddol 2021-22 | Cyllideb Flynyddol 2022-23 | Cyllideb Flynyddol 2023-24 | Cyllideb Flynyddol 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| 1.1 | Cyflog Swyddogion Heddlu | 80,352 | 1,994 | 82,346 | 84,980 | 87,471 | 90,154 | 92,542 |
| 2.1 | Cyflog Staff yr Heddlu | 39,488 | 670 | 40,158 | 41,196 | 42,262 | 43,354 | 44,473 |
| 2.2 | Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) | 6,586 | 131 | 6,717 | 6,852 | 6,989 | 7,128 | 7,271 |
| 3 | Goramser Swyddogion Heddlu | 2,114 | 93 | 2,207 | 2,262 | 2,319 | 2,377 | 2,436 |
| 4 | Goramser Staff yr Heddlu | 602 | 15 | 617 | 633 | 648 | 665 | 681 |
| 5 | Lwfansau | 1,365 | -24 | 1,341 | 1,337 | 1,333 | 1,330 | 1,328 |
| 6 | Hyfforddiant | 724 | 209 | 933 | 952 | 971 | 990 | 1,010 |
| 7 | Gweithwyr Eraill | 559 | 12 | 571 | 582 | 594 | 605 | 618 |
| 8 | Taliadau Pensiwn Uniongyrchol | 3,305 | 79 | 3,384 | 3,465 | 3,548 | 3,634 | 3,721 |
| 9 | Costau Ynni | 1,420 | 0 | 1,420 | 1,463 | 1,506 | 1,552 | 1,598 |
| 10 | Costau Rhedeg Adeiladau | 6,409 | 91 | 6,500 | 6,630 | 6,763 | 6,898 | 7,036 |
| 11 | Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau | 535 | 10 | 545 | 556 | 567 | 579 | 590 |
| 12 | Costau Rhedeg Cerbydau | 1,876 | 48 | 1,924 | 1,973 | 2,024 | 2,076 | 2,130 |
| 13 | Lwfansau Car a Theithio | 716 | 14 | 730 | 745 | 760 | 775 | 791 |
| 14 | Uned Awyr | 589 | 15 | 604 | 619 | 635 | 651 | 667 |
| 15 | Offer | 1,009 | 20 | 1,029 | 1,050 | 1,071 | 1,092 | 1,113 |
| 16 | Dillad a Gwisgoedd | 467 | 10 | 477 | 486 | 496 | 506 | 516 |
| 17 | Argraffu a Nwyddau Swyddfa | 359 | 7 | 366 | 373 | 381 | 389 | 396 |
| 18 | TG a Chyfathrebu | 10,744 | 959 | 11,703 | 11,938 | 12,176 | 12,420 | 12,668 |
| 19 | Cynhaliaeth | 282 | 6 | 288 | 294 | 300 | 306 | 312 |
| 20 | Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill | 2,572 | -51 | 2,521 | 2,555 | 2,589 | 2,625 | 2,660 |
| 21 | Cydweithio a Phartneriaethau | 5,552 | 161 | 5,713 | 5,856 | 6,002 | 6,152 | 6,306 |
| 22 | Fforensig | 740 | 14 | 754 | 769 | 785 | 801 | 817 |
| 23 | Ffioedd Dyledion a Chyfraniad Cyfalaf | 2,607 | -175 | 2,432 | 2,440 | 2,440 | 2,440 | 2,440 |
| 24 | Cyllid Sefyllfaoedd Arbennig | 400 | 0 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| 25 | Chwyddiant ac Arian at Raid | 460 | -60 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| 26 | Cronfa Diogelwch Cymunedol | 1,567 | -1 | 1,566 | 1,566 | 1,566 | 1,566 | 1,566 |
| | **Gwariant Gros** | **173,399** | **4,247** | **177,646** | **182,372** | **186,996** | **191,865** | **196,486** |

| | | Cyllideb Flynyddol 2019-20 | +'Cyn -' Gost (cyllideb net) 2020-21 | Cyllideb Flynyddol 2020-21 | Cyllideb Flynyddol 2021-22 | Cyllideb Flynyddol 2022-23 | Cyllideb Flynyddol 2023-24 | Cyllideb Flynyddol 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Incwm** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **27** | **Secondiadau** | -6,017 | -106 | -6,123 | -6,123 | -6,123 | -6,123 | -6,123 |
| **28** | **Llog ar Falansau** | -100 | 0 | -100 | -100 | -100 | -100 | -100 |
| **29** | **Incwm** | -2,280 | -85 | -2,365 | -2,365 | -2,365 | -2,365 | -2,365 |
| **30** | **Grantiau Penodol** | -10,782 | 19 | -10,763 | -10,710 | -10,657 | -10,605 | -10,605 |
| | **Cyfanswm Incwm** | **-19,179** | **-172** | **-19,351** | **-19,298** | **-19,245** | **-19,193** | **-19,193** |
| **31** | **Cronfa Wrth Gefn PFI** | 44 | -115 | -71 | -188 | -306 | -425 | -425 |
| **32** | **Cronfa Wrth Gefn Ymwybyddiaeth o Gyflymder** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **33** | **Ychwanegol o Gronfeydd Wrth Gefn** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Gwariant Net** | **154,264** | **3,960** | **158,224** | **162,886** | **167,445** | **172,247** | **176,868** |
| **34** | Cyfanswm Grantiau | -73,234 | 0 | -73,234 | -73,234 | -73,234 | -73,234 | -73,234 |
| **35** | Praesept | -81,030 | -3,960 | -84,990 | -88,721 | -92,472 | -96,237 | -100,022 |
| | **Cyllid** | **-154,264** | **-3,960** | **-158,224** | **-161,955** | **-165,706** | **-169,471** | **-173,256** |
| | Balans Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 931 | 808 | 1,037 | 836 |
| | **ACHOS SYLFAENOL - Cronnus** | **0** | **0** | **0** | **931** | **1,739** | **2,776** | **3,611** |
| | **Twf ac Arbedion Eraill (TG a PEQF)** | | | | **1,030** | **213** | **24** | **0** |
| | Balans Blynyddol | | | | 1,961 | 1,021 | 1,061 | 836 |
| | Balans Cronnus | | | | 1,961 | 2,982 | 4,043 | 4,878 |
| | **Ymgyrch Uplift Cam 1** | | | | | | | |
| | Gwariant | | | 3,050 | 3,127 | 3,205 | 3,285 | 3,367 |
| | Grant Tybiedig | | | -3,050 | -3,127 | -3,205 | -3,285 | -3,367 |

**Atodiad C**

## Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2019-20 i 2024-25

| Cyf | Disgrifiad | 2019-20 Cyllideb Ddiwygiedig | 2020-21 Amc | 2021-22 Amc | 2022-23 Amc | 2023-24 Amc | 2024-25 Amc |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | **Rhaglen Ystadau** | | | | | | |
| 1 | Taliadau Cadw, Ymgynghoriaeth a QS | **25** | | | | | |
| 2 | Gwelliannau Cynaliadwyedd | **255** | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |
| 3 | Dalfa newydd Wrecsam a DHQ | **96** | | | | | |
| 4 | Cyfleuster tref Wrecsam | **619** | | | | | |
| 5 | **Adolygiad Ystadau 2** | **40** | 1,559 | 2,570 | 3,379 | 3,791 | 1,333 |
| 6 | Ailwampio Gorsaf Heddlu Pwllheli | **200** | 780 | | | | |
| 7 | Safle FHQ ac ardal Ffreutur | | 257 | | | | |
| 8 | Gweithdy Cerbydau | | 1,545 | 1,325 | | | |
| 9 | TCC'r Ddalfa | **33** | | | | | |
| 10 | Gwaith Safle Drylliau Tanio | **103** | 288 | | | | |
| | **Cyfanswm Gwaith Adeiladu** | **1,371** | **4,529** | **3,995** | **3,479** | **3,891** | **1,433** |
| | | | | | | | |
| | **Cerbydau ac Offer eraill** | | | | | | |
| 11 | Rhaglen Disodli Prynu Cerbydau | **2,071** | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 1,300 |
| 12 | Cerbydau Cefnogi'r Heddlu | | | | 555 | | |
| 13 | System Dexun (SCC) | **78** | | | | | |
| 14 | Intoxilator x 3 | | 30 | | | | |
| 15 | Disodli ANPR | | 470 | | | | |
| 16 | Cymryd Ôl Bys a'i Wella | **62** | | | | | |
| 17 | Offer Arolygu Gwrthdrawiadau | **131** | | | | | |
| | **Cyfanswm Cerbydau ac Offer eraill** | **2,342** | **1,800** | **1,300** | **1,855** | **1,300** | **1,300** |

| Cyf | Disgrifiad | 2019-20 Cyllideb Ddiwygiedig | 2020-21 Amc | 2021-22 Amc | 2022-23 Amc | 2023-24 Amc | 2024-25 Amc |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | **<u>Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</u>** | | | | | | |
| 18 | Disodli Cyfrifiaduron Pen Desg (Rhaglen Ddisodli) | **1,273** | 1,202 | 300 | 750 | 750 | 750 |
| 19 | Disodli Technoleg Ystafell Reoli | **531** | | | | | |
| 20 | Loceri ar gyfer gwefru a storio | **200** | | | | | |
| 21 | App symudol / Defnyddio Life X | | 471 | | | | |
| 22 | Disodli Gweinydd | | | 700 | | | |
| 23 | Gweinyddion Systemau Busnes (Rhaglen Ddisodli) | | | 145 | | | |
| 24 | Dyfeisiau data symudol | **15** | 570 | | | 460 | |
| 25 | Unedau Airwave Newydd | **13** | | | | | |
| 26 | Airwave Newydd ESN | | | 1,000 | | | |
| 27 | Disodli Gweinydd Uned Fforensig Ddigidol | | 20 | | | 270 | |
| 28 | Ap Mobile Responder | **200** | | | | | |
| 29 | Isadeiledd NEP/Sail Point/Dolenni Rhyngrwyd | **1,180** | | | | | |
| 30 | Meddalwedd Cysylltedd | **85** | | | | | |
| 31 | Wifi | **250** | 250 | | | | |
| 32 | Offer clyweledol digidol i'r gweithle | **200** | | | | | |
| 33 | Un Hafan ar-lein (Cyswllt Digidol â'r Cyhoedd) | | 40 | | | | |
| 34 | Gwybodaeth ac Ymchwiliad Digidol | **18** | 193 | | | | |
| 35 | Rheoli Tystiolaeth Ddigidol | **125** | | | | | |
| | **Diwedd Oes – amryw systemau** | | | | | | |
| 36 | Teleffoni CISCO | **250** | | | | | |
| 37 | E-bost (ailddefnyddir ar gyfer NEP) | | | | | | |
| 38 | Uwchraddio Cof Nexus | **50** | | | | | |
| 39 | Copïau Cadw | **156** | | | | | |
| 40 | Rhwydwaith Ardal Leol | **80** | | | | | |
| 41 | Cleientiaid Tenau/ Gliniaduron/ Cyfrifiaduron Pen Desg | **50** | | | | | |
| 42 | Cofrestr Risg | **74** | | | | | |
| 43 | Uwchraddio ICAD (Uwchraddio Gorchymyn a Rheoli) | **100** | 400 | | | | |
| 44 | Fideo a wisgir ar y corff | **535** | | | | 400 | |
| 45 | Diweddaru GIS | **78** | | | | | |
| | **Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | **5,463** | **3,146** | **2,145** | **750** | **1,880** | **750** |
| | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **9,176** | **9,475** | **7,440** | **6,084** | **7,071** | **3,483** |

| Cyf | Disgrifiad | 2019-20<br>Cyllideb Ddiwygiedig | 2020-21<br>Amc | 2021-22<br>Amc | 2022-23<br>Amc | 2023-24<br>Amc | 2024-25<br>Amc |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | **Cyllid** | | | | | | |
| 46 | Grant y Swyddfa Gartref | 462 | 462 | 462 | 462 | 462 | 462 |
| 47 | Cyfraniad Refeniw | 2,269 | 1,643 | 1,516 | 1,238 | 1,238 | 1,238 |
| 48 | Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 3,536 | 1,608 | | | | |
| 49 | Derbyniadau Cyfalaf | 475 | 155 | 377 | 100 | 1,420 | 475 |
| 50 | Benthyca ar gyfer Ystadau | 774 | 4,141 | 3,895 | 3,379 | 3,141 | 958 |
| 51 | Benthyca ar gyfer rhaglen newid offer | 1,660 | 1,466 | 1,190 | 905 | 810 | 350 |
| | **Cyfanswm Cyllid** | **9,176** | **9,475** | **7,440** | **6,084** | **7,071** | **3,483** |
| 52 | Ffynonellau allanol | 462 | 462 | 462 | 462 | 462 | 462 |
| 53 | Adnoddau ein hunain | 6,280 | 3,406 | 1,893 | 1,338 | 2,658 | 1,713 |
| 54 | Dyled | 2,434 | 5,607 | 5,085 | 4,284 | 3,951 | 1,308 |
| | **CYFANSWM** | **9,176** | **9,475** | **7,440** | **6,084** | **7,071** | **3,483** |
| | | | | | | | |